

# Cylchlythyr Eiriolaeth

Hydref 2018 Rhifyn 11

## Pwysigrwydd Eiriolaeth 6

Drwy'r Rhaglen Edau Euraid (GTAP), mae Age Cymru yn ddiweddar wedi cwblhau Pwysigrwydd Eiriolaeth 6, y 6ed adroddiad ar ddarpariaeth eiriolaeth i oedolion yng Nghymru gyda phwyslais penodol ar bobl hŷn.

Dros y 12 mis diwethaf, mae Age Cymru wedi bod yn adolygu pa wasanaethau sydd ar gael, materion ynghylch ariannu a chynaliadwyedd, ansawdd gwasanaethau a hyfforddi eiriolwyr, eiriolaeth a'i rôl mewn diogelu, hygyrchedd o ran iaith, a gwybodaeth am newidiadau deddfwriaethol mewn eiriolaeth a dealltwriaeth ohonynt.

Bydd Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 yn cyflwyno'r canfyddiadau o'n harolwg mwyaf diweddar. Bydd yn edrych ar y canfyddiadau yn wyneb y cyfnod pontio yr ydym ynddo, o gwblhau'r prosiectau ariannu grantiau graddfa fawr i ddechrau'r gwasanaethau Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol newydd eu comisiynu o dan y gofyniad eiriolaeth newydd o fewn y Ddeddf. Bydd Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa sydd ohoni yng Nghymru.

## Darganfyddiadau ers Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 yn 2016

- Gwelwyd cwmp o 32% yn y nifer o wasanaethau eiriolaeth (o 19 i 13) i bobl hŷn yn benodol.
- Gwelwyd cwmp bychan yn y gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i grŵp cleientiaid ehangach. Mae hwn yn gwmp o 44 i 41 o wasanaethau.
- Mae yna 54 o eiriolwyr cyflogedig llawn amser yn gweithio ar draws Cymru, gyda 10 o'r rhain yn darparu eiriolaeth yn benodol ar gyfer pobl hŷn. Mae'r ddau ffigur yma wedi haneru.
- Mae yna 63 o eiriolwyr cyflogedig rhan amser gyda 12 o'r rhain yn darparu eiriolaeth yn benodol ar gyfer pobl hŷn.
- Mae yna 51 o eiriolwyr gwirfoddol yn gweithio mewn amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth ar draws Cymru.
- Mae yna 21 yn llai o eiriolwyr cyflogedig a 15 yn llai o eiriolwyr gwirfoddol sy'n cefnogi pobl hŷn yn benodol nag yr adroddwyd yn adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 5.
- Y cyfanswm o bobl hŷn a gafodd eu cefnogi gan yr holl wasanaethau dros y 12 mis diwethaf oedd 5466, sy'n gwmp o dros 900 o'i gymharu ag adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 5.
- Cefnogwyd 2345 o bobl hŷn yn llai gan wasanaethau eiriolaeth wedi eu hariannu'n benodol ar gyfer pobl hŷn o'i gymharu â 2016.
- Ac edrych tua'r dyfodol, mae'r nifer o wasanaethau sy'n credu y bydd eu cyllid yn aros yr un peth neu'n cynyddu wedi cynyddu i 65% o'i gymharu â 53% yn adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 5.
- Dim ond mewn 15 o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru y mae yna wasanaethau penodol i bobl hŷn, gostyngiad o 17 ers adroddiad Pwysigrwydd Eiriolaeth 5. Fodd bynnag, mae yna wasanaethau i grŵp cleient ehangach ym mhob ardal awdurdod lleol.

## Nifer yr ymatebwyr a gwasanaethau

	Pwysigrwydd Eiriolaeth 4 2013	Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 2016	Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 2018
<b>Cyfanswm yr ymatebwyr</b>	<b>22</b>	<b>22</b>	<b>21</b>
<b>Nifer y gwasanaethau sy'n cael eu cyllido yn benodol ar gyfer pobl hŷn</b>	<b>23</b>	<b>19</b>	<b>13</b>
<b>Nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn</b>	<b>15</b>	<b>13</b>	<b>7</b>

<b>Nifer y gwasanaethau eiriolaeth eraill a gyllidir gyda phobl hŷn yn rhan o'r grŵp cleient</b>	<b>26</b>	<b>44</b>	<b>41</b>
<b>Nifer y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn</b>	<b>12</b>	<b>15</b>	<b>18</b>
<small>(Noder bod y gwasanaethau hyn yn cynnwys gwasanaethau statudol eraill megis Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol [IMCA] ac Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol [IMHA])</small>			

	<b>Pwysigrwydd Eiriolaeth 4 2013</b>		<b>Pwysigrwydd Eiriolaeth 5 2016</b>		<b>Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 2018</b>	
	Gwasanaethau Pobl Hŷn	Pob math o wasanaeth	Gwasanaethau Pobl Hŷn	Pob math o wasanaeth	Gwasanaethau Pobl Hŷn	Pob math o wasanaeth
<b>Llawn Amser</b>	<b>34</b>	<b>33</b>	<b>20</b>	<b>87</b>	<b>10</b>	<b>44</b>
<b>Rhan Amser</b>	<b>46</b>	<b>25</b>	<b>23</b>	<b>43</b>	<b>12</b>	<b>51</b>
<b>Gwirfoddol</b>	<b>53</b>	<b>1</b>	<b>30</b>	<b>36</b>	<b>15</b>	<b>38</b>

Mae'r canfyddiadau yn awgrymu amgylchedd mwy heriol i wasanaethau eiriolaeth yn 2018 gyda gostyngiad yn y niferoedd cyffredinol o eiriolwyr a'r nifer o ddinasyddion sy'n cael cefnogaeth gan y gwasanaethau hynny. Er bod y nifer o sefydliadau a ymatebodd wedi aros yr un fath, mae'r ardal ddaearyddol a gwmpesir gan y gwasanaethau eiriolaeth i bobl hŷn wedi crebachu. Mae hyn yn arwain at fylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer dinasyddion a "loteri cod post" o wasanaethau. Mae Age Cymru yn pryderu'n arbennig, er bod fy nifer o sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth i bobl hŷn fel rhan o grŵp cleientiaid ehangach wedi cynyddu ac yn cefnogi mwy o bobl hŷn, mae yna nifer sylweddol yn llai o wasanaethau arbenigol i bobl hŷn ar draws rhannau o Gymru. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad cyffredinol yn y gefnogaeth i bobl hŷn ar adeg pan fo'r angen yn cynyddu, gyda 900 yn llai o bobl hŷn yn cael eu cefnogi o'i gymharu â 2016.

### **Cyllid a chynaliadwyedd**

- Nododd dros 40% o ddarparwyr fod gan y cyllid ar gyfer eu gwasanaethau presennol llai na blwyddyn ar ôl. Nid oedd 20% arall yn gwybod beth fyddai eu trefniadau cyllido yn y dyfodol.
- Roedd dros 50% wedi sicrhau cyllid ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth am 3 blynedd neu fwy.

### **Ansawdd a safonau**

- Nododd yr holl ddarparwyr eu bod nhw'n cwrdd â'r cod ymarfer eiriolaeth a'r set o safonau.
- Mae 40% o'r ymatebwyr wedi ennill y Marc Perfformiad o Ansawdd ac mae 10% yn gweithio tuag at hynny. Nododd y 40% arall nad oedd ganddynt y Marc ac nad oeddynt yn gweithio tuag at ei ennill.
- Mae gan bron i 80% o'r holl eiriolwyr (cyflogedig a gwirfoddol) gymhwyster Eiriolaeth City & Guilds, gyda nifer ohonynt yn gweithio tuag at y diploma llawn.

### **Iaith**

Canfu'r arolwg bod gan 50% o ddarparwyr, eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg, sy'n gwmp ar y nifer a adroddwyd yn 2016 (70%). Mae'r galw am gefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn isel iawn, gyda 80% o wasanaethau yn parhau i adrodd bod 10% neu lai o'u cefnogaeth yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda nifer yn adrodd na chafwyd un cais am gefnogaeth trwy'r iaith Gymraeg. Mae dros 50% o ddarparwyr yn datgan eu bod wedi darparu cefnogaeth eiriolaeth mewn llawer o ieithoedd eraill megis Tsieinëeg, Pwyleg, Almaeneg ac Arabeg.

### **Diogelu**

Roedd gan 75% o wasanaethau reolwr dynodedig gyda chyfrifoldeb dros ddiogelu. Nid oedd gan bedwar ymatebwr reolwr diogelu dynodedig, o'i gymharu ag un yn unig yn 2016. Tra bod bron i'r holl wasanaethau yn sicrhau bod eu staff wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion, dywedodd llai na (47%) nad oedd eu gwirfoddolwyr wedi cael yr hyfforddiant hwn. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yn 2016, lle'r oedd 75% o wirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn oedolion.

Roedd 85% o ymatebwyr wedi cefnogi rhywun oedd wedi eu cam-drin yn y 12 mis diwethaf. Yn 2016, 100% oedd yr ymateb hwn.

## Casgliadau

Mae Pwysigrwydd Eiriolaeth 6 wedi rhoi cipolwg cyfredol ar ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru i oedolion gyda phwyslais arbennig ar bobl hŷn. Awgryma fod y niferoedd cyffredinol o eiriolwyr, pobl a gefnogir, a'r nifer o wasanaethau a gyllidir i ddarparu eiriolaeth ledled Cymru i gyd wedi lleihau ers yr arolwg diwethaf yn 2016.

Mae'r cwmp yn nifer y darparwyr eiriolaeth ac eiriolwyr arbenigol i bobl hŷn yn bryder penodol i Age Cymru. Mae'n annhebygol iawn bod ffocws a'r arbenigedd penodol hwn wrth gefnogi hŷn yn mynd i gael ei ailadrodd i'r fath raddfa mewn gwasanaeth sy'n cefnogi pobl o bob oedran.

Gallai'r golled o ddarparwyr arbenigol fod yn awgrym o gomisiynu'r newid i ddarparwyr sy'n darparu i bob oedran ar draws ardal ddaearyddol ehangach a diwedd y cyllid ar gyfer prosiectau a gyllidwyd gan Raglen Llawn BYWYD y Gronfa Loteri Fawr.

Mae'r dulliau o gomisiynu eiriolaeth ledled Cymru yn parhau i fod yn amrywiol ac ar wahanol gamau o ddatblygiad. Ar yr adeg pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roedd chwe Awdurdod Lleol wedi comisiynu'r ddarpariaeth IPA sy'n ofynnol ohonynt o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fodd bynnag mae'r rhan fwyaf yn y broses o ddatblygu eu strategaethau ar gyfer y dyfodol. Mae darparwyr a chomisiynwyr yn dal yn ansicr am oblygiadau Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (2016).

Yn sgil y dyletswyddau newydd a osodir ar Awdurdodau Lleol, rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau eirioli yn tyfu ac felly mae argaeledd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn flaenoriaeth i bawb sy'n gysylltiedig. Mae'r cymysgedd o ffynonellau cyllid, statudol a chyllidwyr grantiau yn debyg i'r hyn a adroddwyd yn 2016, gyda'r lleihad yn nifer y sefydliadau a gyllidir gan ymddiriedolaethau elusennol yn cynrychioli'r unig amrywiad sylweddol.

Ymddengys nad yw goblygiadau posibl y gofynion newydd a ragwelwyd ym Mhwysigrwydd Eiriolaeth 6 wedi dwyn ffrwyth hyd yn hyn gan fod Awdurdodau Lleol nad ydynt wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion eto, yn parhau i ddefnyddio contractau cyfredol i sicrhau bod cefnogaeth eiriolaeth ar gael.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Eiriolaeth Edau Euraid drwy e-bostio [goldenthreadadvocacy@agecymru.org.uk](mailto:goldenthreadadvocacy@agecymru.org.uk)

**Marc Forster, Swyddog Partneriaethau, Age Cymru**

## Rhwydweithiau Eiriolaeth

Dros y misoedd diwethaf mae ystod o rwydweithiau darparwyr eiriolaeth rhanbarthol wedi cael eu datblygu i ategu'r rhwydweithiau rhanbarthol cyfredol a'r rhwydwaith cenedlaethol fel rhan o waith y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraid (GTAP).

Mae'r rhwydweithiau yn gyfle i wasanaethau sy'n darparu eiriolaeth ar hyn o bryd, a'r rhai hynny sy'n dymuno gwneud hynny yn y dyfodol, i gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa gyfredol yn y rhanbarth, cyfleoedd comisiynu posibl a allai godi yn y dyfodol ac i gael gofod i rwydweithio a rhannu gwybodaeth a syniadau.

Mae nodau'r rhwydwaith wedi eu hadlewyrchu yn y cylch gorchwyl cytunedig ac yn cynnwys y canlynol:

- Rhannu pryderon, materion, ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion da lleol a rhanbarthol ymhlith sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth.
- Adnabod a chreu cyfleoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth, adnoddau ac arbenigedd.
- Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth o fewn y sector eiriolaeth yn y rhanbarth.
- Adnabod anghenion a bylchau o ran eiriolaeth.
- Cysylltu â'r Rhwydwaith Eiriolaeth Cenedlaethol i sicrhau bod llais y sefydliadau eiriolaeth yn y rhanbarth yn cael ei glywed a bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei derbyn.
- Adeiladu gallu sefydliadau eiriolaeth y rhanbarth gan sicrhau eu bod yn gweithredu'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi diweddaraf.
- Dwyn ynghyd sefydliadau eiriolaeth i gael llais rhanbarthol, cyfunol a chryf.
- Hybu cyfathrebu rhwng y sectorau gwirfoddol, statudol ac eraill am eiriolaeth yn y rhanbarth.
- Dylanwadu ar bolisi iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau newid a gwella eiriolaeth.

Yn ogystal â dwyn ynghyd ystod eang o ddarparwyr i rannu gwybodaeth a dealltwriaeth, gwella perthnasoedd gweithio a derbyn y diweddaraf am ddatblygiadau deddfwriaethol/sectorol, isod mae rhai o'r canlyniadau/allbynnau cadarnhaol y mae'r rhwydweithiau wedi eu cyflawni:

- Wedi dod â darparwyr eiriolaeth ynghyd i drefnu digwyddiadau cyd-gynhyrchu a dylanwadu arnynt mewn sawl ardal gomisiynu.
- Wedi ymateb ar y cyd i gomisiynwyr ardal i ddylanwadu ar y strategaeth eiriolaeth a manyleb gwasanaeth a siapio'r rhain.
- Wedi ymateb ar y cyd i ymgynghoriadau ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.
- Wedi galluogi nifer o ddarparwyr i ddod ynghyd mewn sawl ardal i ffurfio rhaglen gydweithredol sy'n barod i dendro am gyfleoedd comisiynu.
- Helpu i siapio a gwella adnoddau a deunyddiau GTAP megis matrices aeddfedrwydd, deunyddiau codi ymwybyddiaeth a dogfen ganlyniadau.
- Wedi herio'n adeiladol ystod o gyflwynwyr i wella ansawdd y nwyddau a gwasanaethau ar gael.
- Mireinio'r wybodaeth benodol am eiriolaeth sydd ar gael ar wefan Dewis Cymru.

### Rhwydwaith eiriolaeth cenedlaethol

Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Pobl Hŷn yng Nghymru wedi cael ei gefnogi a'i hyrwyddo gan Age Cymru ers blynyddoedd, yn ddiweddarach drwy GTAP. Mae'r rhwydwaith yn cyfarfod bob chwarter yng Ngwesty Neuadd Maesmawr ger y Drenewydd ac mae'n dwyn ynghyd rheolwyr ac ymarferwyr gwasanaeth eiriolaeth o bob cwr o Gymru. Mae'r agenda yn canolbwyntio ar ddarparu a thrafod pynciau cenedlaethol megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Diogelu.

Mae'r cyfarfodydd rhwydwaith yn cael cyflwyniadau yn rheolaidd gan siaradwyr gwadd ar faterion megis y Marc Perfformiad o Ansawdd ac mae hefyd yn derbyn diweddariadau rheolaidd am gynnydd GTAP ac yn chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu adnoddau a deunyddiau GTAP. Mae'r rhwydwaith yn derbyn diweddariadau gan yr ystod o rwydweithiau rhanbarthol sydd wedi eu sefydlu ledled Cymru fwyfwy. Caiff materion a godir mewn trafodaethau yn y cyfarfodydd rhwydwaith eu cyfeirio at y Tîm Polisi yn Age Cymru, sy'n eu cyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru.

Y Rheolwr GTAP yw cadeirydd y Rhwydwaith Cenedlaethol ac o ganlyniad mae'n aelod o'r Advocacy Action Alliance, sy'n dwyn ynghyd cynrychiolwyr o sefydliadau eiriolaeth ledled Cymru a Lloegr.

## **Rhwydweithiau rhanbarthol**

Cyn GTAP, sefydlwyd rhwydwaith rhanbarthol ym Mhowys, sy'n cael ei gadeirio a'i hyrwyddo gan PAVO, y Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol, yn ogystal â rhwydwaith i ymdrin â Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, sy'n cael ei gadeirio a'i hyrwyddo ar sail flynyddol gan un o'r sefydliadau sy'n aelodau. Yn ystod 2018, mae'r ddau rwydwaith wedi darparu digwyddiadau cyd-gynhyrchu gyda chomisiynwyr i ddatblygu strategaethau eiriolaeth ar gyfer yr ardaloedd.

Wrth fod Swyddog Partneriaethau GTAP wedi datblygu perthnasoedd gweithio gyda darparwyr eiriolaeth a thrafod yr opsiynau cefnogaeth a allai eu helpu, un o'r anghenion a adnabuwyd yw'r angen i greu rhwydweithiau eiriolaeth rhanbarthol mewn ardaloedd lle nad ydynt eisoes yn bodoli. Mae'r angen am y rhwydweithiau darparwyr hyn wedi cael ei gydnabod a'i gytuno gan gyrff comisiynu ledled Cymru.

Mae rhwydweithiau rhanbarthol wedi cael eu sefydlu i ymdrin â'r ardaloedd canlynol o Gymru:

Caerdydd a Bro Morgannwg

Cwm Taf

Gwent

Gogledd Cymru

Torfaen (sydd bellach yn bodoli fel fforwm rhithiwr/ar-lein ers sefydlu rhwydwaith Gwent)

Yr unig ardal o Gymru nad oes ganddi rwydwaith ar hyn o bryd yw ardal Bae'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a fydd yn cael un yn fuan.

Er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer y rhwydweithiau wedi GTAP, mae'r rhan fwyaf yn cael eu cadeirio gan gynrychiolydd o sefydliad sy'n aelod neu Gyngor Gwirfoddol Sirol. Mae'r lleoliadau yn cael eu darparu gan sefydliadau sy'n aelodau ac yn cylchdroi ar draws y rhanbarth yn y rhan fwyaf o achosion.

Am ragor o wybodaeth ar unrhyw un o'r rhwydweithiau eiriolaeth, cysylltwch â Marc Forster ar 07932 989656 neu [marc.forster@agecymru.org.uk](mailto:marc.forster@agecymru.org.uk)

**Marc Forster, Swyddog Partneriaethau, Age Cymru**

## ***Cynhadledd Genedlaethol Gofal Cymdeithasol***

Mynychodd y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP) Gynhadledd Genedlaethol Gofal Cymdeithas eleni a gynhaliwyd ar y 12fed a'r 13eg o Fedi yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd.

Fel rhaglen, roeddem wrth ein boddau yn cael cyfle i gyflwyno, ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gweithdy Parth Dysgu a oedd yn dwyn y teitl "Datblygu Model Lleol ar gyfer darparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol." Roedd hyn yn gyfle gwych i ni arddangos y comisiynu cyd-gynhyrchiol cyffrous a arweiniodd at dreialu model prif ganolfan a lloerennau ar gyfer darparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol o fewn y sir.

Parhad.....

Canolbwyntiodd y sesiwn ar y daith a gymerodd comisiynwyr ac arweinwyr o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y cyd â'r tîm GTAP, gan gydweithio i ddeall yr angen am eiriolaeth yn y Sir, yn ogystal ag edrych ar ba ddatrysiadau y gellid eu cyflwyno i fodloni'r galw rhagweladwy gyda darparwyr. Yn dilyn y drafodaeth ynglŷn â'r llwybr, aeth y comisiynwr ati i gael gafael ar y ganolfan annibynol yn ogystal â'r elfennau lloeren o'r gwasanaeth. Rhannom gyda'r mynychwyr rhai o'r prif ganfyddiadau o'r rhaglen beilot yn ogystal â'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i ddatblygiad parhaus y gwasanaeth sydd bellach wedi cael eu hail-gomisiynu.

Un o'r prif ganfyddiadau a rannom oedd:

“Mae'r model prif ganolfan wedi darparu'r cyfle ar gyfer gwasanaeth syml, gyda'r brif ganolfan yn cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at wasanaethau anstatudol priodol lle nad ydynt yn gymwys am wasanaethau statudol (lle byddai'r defnyddwyr gwasanaeth hynny cynt yn cysylltu â gwasanaethau statudol). Mae'r brif ganolfan wedi darparu'r adnodd i archwilio a hysbysu defnyddwyr gwasanaeth anstatudol o sefydliadau ac opsiynau cymorth ar gael iddynt na fyddai wedi bod yn bosibl yn nhermau amser i staff gwasanaeth statudol ei wneud.” (tynnwyd o'r adroddiad gwerthuso a ysgrifennwyd gan GTAP ar y prosiect peilot BCBC)

Rhannom hefyd rai o'r canlyniadau a adroddwyd o'r prosiect hwn:

Ymhlith y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth mae:

- Cynnydd mewn hunan-hyder ac agwedd gadarnhaol.
- Mwy o allu i hunan-eirioli.
- Unigolion yn derbyn y cymorth ymarferol ac emosiynol y maent ei angen i wella eu bywydau. (Unigolion sydd â chymorth, yn gallu adnabod a deall yn glir eu hanghenion gofal a chymorth ac yn gallu adnabod opsiynau a gwasanaethau sydd ar gael i fodloni'r anghenion hynny.)
- Lles cyffredinol gwell gan unigolion sy'n derbyn y cymorth a'r gwasanaethau y maent eu hangen.
- Unigolion yn cael opsiynau a dewis a gwell rheolaeth o'u bywydau.
- Lleisiau unigolion yn cael eu clywed, a'r unigolion hynny yn cael cymryd rhan lawn wrth wneud penderfyniadau am eu gofal a chymorth. Mae unigolion wedi dweud bod cymorth eiriolaeth yn gwneud iddynt deimlo bod eu barn yn bwysig ac yn cael ei werthfawrogi.
- Mae rhai pobl wedi deud bod y cymorth wedi eu galluogi i gael mwy o reolaeth o'u bywydau a phenderfyniadau.
- Unigolion wedi eu grymuso.

Mynychodd nifer y sesiwn parth dysgu a oedd yn gyfle gwych i'r rhaglen GTAP rannu ei harsylwadau a phrofiadau. Hoffem ddiolch i Richard Thomas, Swyddog Comisiynu Strategol am y cymorth amhrisiadwy a ddarparodd wrth baratoi'r gweithdy yn ogystal â'i gymorth wrth hwyluso ar y cyd ar y diwrnod.



Huw Davies (Ch) and Paul Swann (D) ar eu Standin Wybodaeth yn y Gynhadledd Genedlaethol Gofal Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 12/13 Medi 2018 yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd.

**Huw Davies, Swyddog Datblygu Rhaglen ar gyfer Comisiynu, Age Cymru**

Parhad.....

Pobl fyddar yw defnyddwyr BSL sy'n defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) fel eu hiaith gyntaf neu iaith ddewisol. Mae'r brif lythyren 'D' yn gwahaniaethu rhwng defnyddwyr BSL a phobl sydd â nam clyw. Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA) yw'r prif fudiad aelodau yn y DU a redir gan ddefnyddwyr BSL ar gyfer defnyddwyr BSL. Mae BDA yn darparu ystod o wasanaethau ledled y DU wedi eu hanelu at rymuso pobl fyddar i oresgyn yr anawsterau y maent yn eu hwynebu'n ddyddiol.

Un o'r gwasanaethau hyn yw Mynediad a Chynhwysiant Eiriolaeth sy'n cynnwys:

gweithio ag unigolion neu grwpiau i'w galluogi a'u grymuso i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gwrandewir arno, gan sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn ymwybodol o hawliau/cydraddoldeb Byddar. Yn ogystal â hyn maent yn sicrhau bod defnyddwyr BSL yn gallu cael gafael ar wybodaeth glir a llawn i'w helpu i gyflawni canlyniadau gwell mewn bywyd.

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

### **1. Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn iaith ar y lefel briodol fel bod defnyddwyr BSL yn deall**

Mae nifer o ddefnyddwyr BSL, sy'n methu â chlywed sgysiau o ddydd i ddydd, y teledu, radio neu ffurfiau eraill yr iaith lafar, yn cael anawsterau gydag iaith ysgrifenedig a llafar. Mae hyn yn atal defnyddwyr BSL rhag gallu dysgu Saesneg ar yr un lefelau â phobl sy'n gallu clywed. Oherwydd hyn, mae'n bosibl na fydd yr wybodaeth a ddarperir yn Saesneg yn bodloni anghenion holl ddefnyddwyr BSL.

Nid yw darparu aelod o staff sydd wedi dysgu BSL hyd at Lefel 1 neu 2 yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ddeall yn llawn y synau, idiomau ac agweddau diwylliannol eraill sy'n rhan o BSL. Mae'n bosibl na fydd cynnig dehonglwr yn dderbyniol gan fod hyn yn tybio bod cyfieithiad uniongyrchol yn ddigonol pan nad yw'r dehonglydd yn bodloni anghenion yr unigolyn.

### **Astudiaeth Achos**

Atgyfeiriwyd cleient gan ei chwaer oherwydd pryder am ei hiechyd meddwl. Roedd y cleient wedi cael diagnosis MS drwg. Daeth y cleient yn isel ei hysbryd, oriog, aflonydd, a gwrthodai siarad/arwyddo gyda neb am ei chyflwr. Cynigodd y meddyg teulu gwrsela drwy gyfrwng dehonglydd. Nid oedd y cleient yn hapus gyda hyn, gan fod yn well ganddi gwrselydd yn defnyddio BSL, roedd hyn yn ei galluogi i fod yn fwy agored a mynegi ei hemosiynau i rywun sy'n defnyddio BSL ac yn gallu uniaethu'n llwyr â hi. Gwrthododd y Bwrdd Iechyd ei chais i ddechrau arni, ond ar ôl ymyrraeth gan wasanaethau Eiriolaeth, cytunodd.

### **2. Sicrhau bod pob dogfennaeth ysgrifenedig yn ddealladwy i ddefnyddwyr BSL fel eu bod yn gallu ymateb yn briodol**

Mae nifer o ddogfennau cyhoeddus yn perthyn i'r categori hwn e.e. cofrestru gyda meddyg teulu lleol, ffurflenni ysbyty, gwneud cais am wasanaeth gofal cymdeithasol, hawlio budd-daliadau, cadarnhau apwyntiadau etc. Mae pob gwasanaeth Eiriolaeth BDA yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, yn adrodd bod 100% o'u cleientiaid angen gwasanaethau cyfieithu.



## Astudiaeth Achos

Cadarnhaodd cleient lythyr gan ei hysbyty ar ôl disgwyl am chwe mis. Pan gyrhaeddodd hi, nid oedd dehonglwr yn bresennol. Cafodd y cleient wybod bod y meddyg ymgynghorol yn sâl a bod staff y dderbynfa wedi ei ffonio(!) yn gynharach y bore hwn i ddweud wrthi. Cymerodd feddyg ymgynghorol arall yr apwyntiad gan geisio cyfathrebu gyda hi drwy ddefnyddio pin a phapur. Parhaodd y cleient i gael anawsterau gyda'r iaith, ond pan geisiodd y meddyg ymgynghorol ei harchwilio, cerddodd allan mewn gofid. Atgyfeiriodd yna at y gwasanaethau Eiriolaeth a gefnogodd hi i wneud cwyn, a chafwyd canlyniad boddhaol.

### 3. Sicrhau bod mynediad priodol

I nifer o ddefnyddwyr BSL mae dehonglwyr Saesneg/BSL cofrestredig, sydd wedi cymhwysu'n llawn yn ofynnol. Er bod gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi mynnu addasiadau rhesymol, nid yw nifer o wasanaethau prif ffrwd ar gael i ddefnyddwyr BSL am nad ydynt wedi cyllido ar gyfer BSL, a rhoi gwybod i'w staff sut mae archebu dehonglwyr. Mae'r BDA yn cefnogi defnyddwyr BSL sy'n cwyno'n aml nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau iechyd er gwaethaf y gwasanaeth a gynnigir gan y tri gwasanaeth dehongli Cymraeg.

## Astudiaeth Achos

Torrwyd i mewn i fflat cleient pan oedd y cleient yn bresennol. Gyda chymorth yr eiriolwr, roedd y cleient yn gallu gwneud datganiad gan ddefnyddio dehonglwr i'r heddlu. Cafodd y cleient dŷ arall o ganlyniad iddi ddiodef trosedd casineb a bod ar gofrestr POVA.

## Gwasanaeth Eiriolaeth De Cymru

Ar hyn o bryd mae BDA yn gallu cynnig Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant Eiriolaeth yn Ne Cymru, a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. I gysylltu â'r gwasanaeth, e-bostiwch [Michelle.Fowler-Powe\\_cao.wales@bda.org.uk](mailto:Michelle.Fowler-Powe@cao.wales@bda.org.uk) neu SMS/Facetime: 07766 600597 neu Skype/ooVoo: Michelle Fowler BDA.

**Dolenni** 1. <https://bda.org.uk> 2. <https://www.wits.wales>

**Paul Redfern a Michelle Fowler-Powe, Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain**

**Lansio Eiriolaeth BDA Cymru yn y Pierhead, Cynulliad Cenedlaethol Cymru - [GWAHODDIAD](#)**

## *Gwybodaeth ddefnyddiol arall*

### Tudalen Newyddion Advocacy QPM

Y ddolen ddiweddaraf i'r [tudalen newyddion](#), diolch i Gail Petty am ei darparu.



### Dewis Centre for Independent Living

Darperir gan Nicola Benny o Dewis CIL. Rydym yn hapus i atodi dolen i'w [DVD's](#) sy'n rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut mae Eiriolaeth yn gweithio ac wedi gwella bywydau pobl sydd wedi defnyddio'r DVDs.



### Ymgynghoriad y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Dolen i [ymgynghoriad y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar adolygu cydsynio](#)

Parhad....

## Llinell Gymorth Am Ddim Age Cymru

Gall llinell gymorth Age Cymru ddarparu cyngor diduedd yn rhad ac am ddim i'ch etholaethau ar ystod o bynciau.

Efallai eu bod eisiau cymorth ynglŷn â faint y dylent ei dalu am ofal i'w hanwyliaid? Neu efallai eu bod eisiau gwybod os ydynt yn gymwys am Gredyd Pensiwn ac eisiau cymorth i'w hawlio?

Gall Age Cymru helpu gyda'r holl faterion hyn, a mwy – ffoniwch ni heddiw ar: **08000 223 444**

### Cysylltwch â ni...

- I gofrestru i dderbyn y cylchlythyr
- Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau
- Os oes yna unrhyw beth yr hoffech ei weld yn y cylchlythyr nesaf

E-bostiwrch: [sue.vaarkamp@agecymru.org.uk](mailto:sue.vaarkamp@agecymru.org.uk)

Ffoniwch Raglen Edau Euraid 01352 706228

Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i newid erthyglau a gyhoeddir. Nid yw'r safbwyntiau yn y cylchlythyr hwn o reidrydd yn rhai Age Cymru.

Age Cymru,  
Ground Floor,  
Mariners House,  
Trident Court,  
Heol East Moors,  
Caerdydd, CF24 5TD

Ffôn: 029 2043 1555

E-bost:

[enquiries@agecymru.org.uk](mailto:enquiries@agecymru.org.uk)

[www.agecymru.org.uk](http://www.agecymru.org.uk)

Rhif elusen gofrestredig: 1128436

Rhif cwmni cofrestredig: 6837284

© Age Cymru 2017

